# PWLL NOFIO'R DDRAENEN-WEN

RHONDDA CYNON TAF

# CYNLLUN GOLEUADAU LED

## WEDI'I DDARPARU GAN GARFAN YNNI A LLEIHAU CARBON CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF RHWNG 2024 A 2025



Yn rhan o'r Prosiect Lleihau Carbon rhwng mis Ebrill 2024 a Mawrth 2025, mae **dros 100 o oleuadau LED** wedi cael eu gosod ym Mhwll Nofio y Ddraenen-wen, Pontypridd.

O'u cymharu â goleuadau traddodiadol megis bylbiau gwynias a fflwroleuol, mae goleuadau LED yn fwy effeithlon gan eu bod nhw'n trosi canran uwch o ynni yn olau, yn cynhyrchu llai o wres, ac yn para am ragor o amser. Mae hyn yn golygu bod goleuadau LED yn effeithiol o ran cost a'u bod nhw'n ddewis cynaliadwy poblogaidd ar gyfer anghenion goleuo.

Mae data yn dangos bod y prosiect yma'n **arbed 23,207 kWh y flwyddyn,** sy'n cyfateb i **£4,409 y flwyddyn** (yn seiliedig ar gostau ynni presennol). Mae'r gwaith gosod yma'n sicrhau gostyngiad o **8.97 tunnell y flwyddyn** yn allyriadau nwyon tŷ gwydr y Cyngor, gan helpu'r Cyngor i symud tuag at ei darged o fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

**23,207**
**kWh y flwyddyn**

**£4,409**
**y flwyddyn**

**8.97**
**tunnell y flwyddyn**

**CYSYLLTWCH Â NI** Ynni@rctcbc.gov.uk